

Hen Ysgol Bryneglwys

Gwahoddiad i Fynegi Diddordeb mewn datblygu Tîm Rheoli

Cefndir

Cynigiwyd trawsnewid Hen Ysgol Bryneglwys yn adnodd at ddefnydd cymunedol (cyfeirir ato fel y prosiect o hyn allan) ym mis Gorffennaf 2013. Wedi cau ysgol y pentref, cysylltodd cyfreithwyr perchnogion yr adeilad â'r Cyngor Cymuned. Cynigiwyd trosglwyddo perchnogaeth yr adeilad (cyfeirir ato fel yr ased o hyn allan) i'r Cyngor Cymuned er budd cymuned Bryneglwys yn gyffredinol.

Roedd cael yr ased yn amodol ar i'r Cyngor fod yn atebol am unrhyw dreth enillion cyfalaf oedd yn ddyledus y gellid efallai ei wneud yn ardoll gan yr HMRC. Dangosodd ystyriaeth gan aelodau Cyngorau blaenorol o'r cynnig hwn, bod problemau a oedd yn ymwneud â: perchnogaeth yr adeilad a'r tir, atebolrwydd treth enillion cyfalaf a chyflwr strwythurol gwael yr adeilad. Derbyniwyd grant gan Gyngor Sir Ddinbych, ac fe'i defnyddiwyd i adnewyddu'r adeilad, gan gynnwys gosod cwteri a drysau a ffenestri newydd. Defnyddiwyd gwariant pellach ar gomisiynu astudiaeth dichonolrwydd.

Mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mai 2018, Ddangosodd trafodaethau ag aelodau'r gymuned deimladau cymysg o'r dechrau ynghylch poblogrwydd y prosiect a lleisiwyd pryderon am hyfywdra ariannol y prosiect a'r ansicrwydd a'r anhysbys sy'n gysylltiedig â sefydlu corff elusennol i reoli'r prosiect. Fodd bynnag o'r 43 aelod o'r gymuned a fynychodd y cyfarfod cyhoeddus (14% o'r gymuned), pleidleisiodd 36 o blaid y prosiect a chofnododd 3 unigolyn ddiddordeb i fod ynghlwm wrth reoli'r prosiect. Mewn cais pellach i'r Cyngor i ymuno â thîm rheoli, ni chadarnhawyd yr un oedd yn mynegi diddordeb. Cafwyd un yn mynegi diddordeb yn dilyn ymgais pellach drwy gylchlythyr ac e-bost personol gan y Cyngor yn 2019. Cafodd ymgais gan y Cyngor yn gynharach eleni i agor yr adeilad ar gyfer defnydd cymunedol yn dilyn peth gwaith adnewyddu ei oedi oherwydd canfuwyd pren wedi braenu yn llawr y prif adeilad a phryderon am yr ardstiad trydanol.

Mae'r Cyngor yn llawn ymwybodol o anffyddlondeb y Gymuned am gynnydd y prosiect a'r diffyg eglurder am y buddion diriaethol. Wrth wraidd y pryder hwn, mae cynaliadwyedd ariannol y prosiect, gan gofio bod gweithgareddau eraill yn y gymuned yn cystadlu am godi arian.

Am y tair blynedd diwethaf, gyda thrwydded i feddiannu, amcangyfrif gwariant y prosiect yw oddeutu £1500 y flwyddyn (oddeutu chwarter incwm y Cyngor ar gyfartaledd yn y blynyddoedd diweddar) ar ased nad yw'r gymuned yn berchen arno, ac sydd ddim ar gael i'w ddefnyddio (oherwydd pryderon am faterion iechyd a diogelwch o ran yswiriant yr adeilad). Mae gwariant o'r lefel hwn wedi arwain archebiant uwch na chymunedau eraill, ac fel awdurdod cyhoeddus, ni all gyfiawnhau gwariant parhaus o'r lefel hwn.

Gwahoddiad

Am y tro olaf, mae eich Cyngor yn chwilio am ddiddordeb aelodau unigol o'r gymuned i'n helpu ni archwilio ffyrdd dichonadwy i ariannu'r prosiect yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Rydym yn awyddus i ddod i gysylltiad â phobl sydd â phrofiad o godi arian, rheoli prosiectau cymunedol o lefel uchel, sy'n gyfarwydd â materion llywodraethol a chyfreithiol sy'n ymwneud â mentrau cymunedol ac elusennol, profiad o recriwtio ac arwain gwirfoddolwyr, ac sydd â gweledigaeth i ddenu incwm allanol i mewn i'r gymuned er mwyn helpu i ariannu mentrau cymunedol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ein helpu ni, ysgrifennwch at David Rose (ebost : Clerk@bryneglwyscc.wales <mailto:Clerk@bryneglwyscc.wales>, neu drwy lythyr: Isis, Allt yr Efail, Llandegla, Sir Ddinbych, LL11 3AW), erbyn 31ain Awst 2019 yn disgrifio eich sgiliau, a'r amser y gallwch ei gynnig. Cyflwynwch fanylion am eich awgrymiadau i sicrhau y bydd y prosiect yn gynaliadwy i'r dyfodol, a disgrifiwch sut yr ydych yn bwriadu denu'r buddsoddiad cyfalafol angenrheidiol, a'r ffynonellau ariannol a fydd yn sicrhau'r ased fel adnodd er budd y gymuned yn gyffredinol. Byddai disgrifiad manwl o'r model busnes priodol yn amhrisiadwy. Mae'r adrannau canlynol, yn darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r prosiect.

Amcanion a Buddion

Amcan y prosiect yw darparu adnodd hunan gynaliadwy at ddefnydd y gymuned. Yn ymarferol golyga hyn gweithredu strategaeth a fydd yn bodloni anghenion y gymuned yn gyffredinol, ac a fydd ategu at weithgareddau codi arian eraill. Bydd angen arian i dalu'r atebolrwydd treth enillion cyfalafol (os yw'n ddyledus) i sicrhau'r ased (gweler isod), ac i adnewyddu'r adeilad i lefel briodol a chynorthwyo i dalu costau cynnal a chadw a gweithredu'r adeilad.

Mae buddion posib i'r gymuned yn cynnwys man cymunedol arall (yn ychwanegol i Ystafell y Plwyf a Chapel Eglwys Iâl) y gellir cynnal digwyddiadau cymunedol ynddi, ystafelloedd y gellir eu hurio at ddefnydd preifat, gallai ddarparu caffi a siop ac efallai gwybodaeth i dwristiaid.

Cyfleoedd a Chyfyngiadau

Rhaid cydnabod wrth ddatblygu'r prosiect bod:

- gan gymdeithasau cymunedol lleol hanes hir a llwyddiannus o godi arian yn y gymuned a dylid cofio hyn.
- cyfle i weithio gyda Chyngor Plwyf yr Eglwys i ddatblygu Capel Iâl ar y cyd fel adnodd cymunedol.
- angen grantiau cyfalaf sylweddol i symud y prosiect yn ei flaen ac adnewyddu'r adeilad.
- y Cyngor ei hun yn parhau i drafod cyfleoedd codi arian eraill.
- sefydlu corff elusennol (bydd angen codi arian ar gyfer talu'r dreth enillion cyfalafol fwy na thebyg) yn broses hir. Bu dwy ymgais flaenorol yn aflwyddiannus.
- eto'r angen i egluro'r berthynas ymarferol (llywodraethu) rhwng y Cyngor ac unrhyw dîm rheoli i liniaru perygl a diogelu'r pwrs cyhoeddus, a buddiannau'r gymuned yn gyffredinol.

Rheolaeth Dros Dro

Gwnaiff y Cyngor arwain y prosiect nes i dîm rheoli creadwy gael ei ffurfio fel corff a gydnabyddir yn gyfreithiol, ac i'w gynllun busnes fod wedi ateb diwydrwydd dyladwy ac wedi e dderbyn gan y Cyngor fel hyfyw a chynaliadwy, ac wedi hynny fel y mae'n ofynnol, i'r Cyngor (amod o drosglwyddo'r ased) i gymryd rôl goruchwyllo a llywodraethu ariannol a gweithredu parhaus.